**Alun Davies AC / AM**
**Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd**
**Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref LF/AD-/0150/14

David Melding AC
Cadeirydd y Pwyllgor Materion
Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd

Chwefror 2014

**Cynigion ar gyfer Bil yr Amgylchedd**

Diolch am eich gohebiaeth dyddiedig 3 Chwefror 2014 a'ch diddordeb yn ein Papur Gwyn sy'n ymgynghori ynghylch cynigion ar gyfer Bil yr Amgylchedd.

O safbwynt y pwyntiau yr ydych yn eu codi, rydym wrthi'n dadansoddi'r ymatebion i'r ymgynghoriad a hoffwn bwysleisio nad yw'r cynigion i'w cynnwys yn y Bil drafft yn derfynol. Bydd yr ymgynghoriad ar y Papur Gwyn yn rhan allweddol o waith datblygu'r Bil. Yn ogystal, bydd yr ymatebion yn sail i'r gwaith o ddatblygu ymhellach ein cynigion a drafftio'r Bil ac rwy'n bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad yn ddiweddarach y Gwanwyn hwn.

Caiff dau bŵer posibl eu hamlinellu yn y Papur Gwyn a fydd yn galluogi Gweinidogion Cymru i ddiwygio Deddfau Seneddol a Deddfau'r Cynulliad drwy is-ddeddfwriaeth. Mae NRM11 yn amlinellu cynnig ar gyfer pŵer a fydd yn rhoi effaith i newidiadau i'r fframwaith is-ddeddfwriaethol sy'n llywodraethu'r gwaith o reoli adnoddau naturiol o dan rai amgylchiadau. Byddai cynnig ychwanegol (SM4) yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru ddiwygio Deddf Dŵr, drwy Orchymyn, o dan rai amgylchiadau, gan gynnwys os ydynt yn fodlon y bydd yn ei gwneud hi'n haws i gydgrynhoi un neu fwy o'r Deddfau Dŵr.

Os bydd y gwaith hwn yn mynd rhagddo, hoffwn gynnig sicrwydd mai'r bwriad yw sicrhau bod gan y pwerau gwmpas cyfyngedig a phenodol iawn i roi effaith i newidiadau i'r fframwaith deddfwriaethol sylfaenol sy'n llywodraethu'r modd y caiff adnoddau naturiol eu rheoli. Ni fyddai hyn ond yn berthnasol o dan amgylchiadau penodol ac i ddeddfwriaeth benodol - hynny yw lle y mae modd dangos bod y gyfraith bresennol yn groes i ddiffiniad, pwrpas ac amcanion y fframwaith ar gyfer rheoli adnoddau naturiol mewn modd integredig a lle y mae pob ffordd arall o fynd i'r afael â'r materion hynny eisoes wedi'u defnyddio. Byddai'n rhaid i unrhyw ddiwygiadau eraill o'r fath sicrhau cydymffurfiaeth barhaus â

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA
English Enquiry Line 0845 010 3300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0845 010 4400
Correspondence.Alun.Davies@wales.gsi.gov.uk
*Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgylchu (100%)* *Printed on 100% recycled paper*

rhwymedigaethau'r UE.  Mynegwyd camdybiaeth yng nghyfarfod y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd ar 12 Rhagfyr fod y pŵer hwn yn bŵer cyffredinol a fydd yn ei gwneud hi'n bosibl i gydgrynhoi deddfwriaeth Amgylcheddol drwy is-ddeddfwriaeth – nid dyma'r sefyllfa a bydd fy swyddogion yn cadarnhau bwriad a chwmpas cyfyngedig y pŵer.

Wrth ystyried y cynigion rwy'n ymwybodol o'r angen i sicrhau fframwaith cyfreithiol sy'n ddigon hyblyg i ymateb yn well i amgylchiadau sy'n newid, ond hefyd i sicrhau eglurder ac atebolrwydd democrataidd clir.

Rwy'n anfon copi o'r ymateb hwn at yr Arglwydd Elis-Thomas, Cadeirydd y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd.

**Alun Davies AC / AM**
Y Gweinidog  Cyfoeth Naturiol a Bwyd
Minister for Natural Resources and Food